**Gwynedd ac Ynys Môn**

# Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
# Dogfen Egwyddorion

**Ionawr 2024**

## Cyflwyniad

Mae Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru yn nodi sut y dylai awdurdodau lleol mewn ymgynghoriad ag ysgolion ac eraill sefydlu a chyhoeddi cyfres o egwyddorion i'w dilyn wrth benderfynu a yw'n rhesymol i ysgol sicrhau'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) sydd ei hangen ar blentyn neu berson ifanc neu a ddylai'r awdurdod wneud hynny.

Nodir yn adran 12.44 o'r Cod ADY

> Dylai egwyddorion ymwneud â:
> (a) graddau a hyd cyfnod y cyngor gan arbenigwyr allanol y mae'n debygol o fod yn afresymol i ysgol ei sicrhau;
> (b) y cyfarpar y mae'n debygol o fod yn afresymol i ysgol ei ddarparu;
> (c) dwyster a hyd cyfnod y cymorth a graddfa ymgysylltiad y staff mewnol (gan gynnwys y CADY) yn yr ysgol y mae'n debygol o fod yn afresymol i ysgol ei ddarparu

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r egwyddorion y bydd awdurdodau lleol ac ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn yn eu dilyn wrth wneud penderfyniadau am y DDdY briodol i gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

## Cyd-destun deddfwriaethol : Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Yng Nghymru, mae plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol sydd angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol yn cael **Cynllun Datblygu Unigol (CDU).**

Crëwyd y fframwaith deddfwriaethol ADY yng Nghymru drwy Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Deddf ADY), Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 (y Cod ADY) a'r rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf.

Cafodd ddeddfwriaeth i greu dull newydd ar gyfer cefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ei basio ar y 24 Ionawr 2018 - sef Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Dyma'r egwyddorion sy'n sail i'r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yng Nghymru:

• ein bod ni’n gwrando ar farn, dymuniadau a theimladau plant, eu rhieni a phobl ifanc pan fo penderfyniadau’n cael eu gwneud ynghylch sut i helpu plant a phobl ifanc

• bod y cymorth cywir yn cael ei roi ar waith yn gyflym i helpu plant a phobl ifanc sydd ag ADY

• bod pawb yn gweithio gyda’i gilydd i helpu plant a phobl ifanc sydd ag ADY, gan gynnwys gwasanaethau addysg ac iechyd

• bod y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc sydd ag ADY yn gallu mynd i’w meithrinfa, eu hysgol, neu eu coleg lleol, os yw’n briodol iddyn nhw

• bod plant a’u rhieni yn gallu cael mynediad at gymorth dysgu hyd yn oed cyn iddyn nhw ddechrau yn yr ysgol neu’r feithrinfa

• bod plant, eu rhieni a phobl ifanc yn deall y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sy’n cael ei chynnig

• bod plant a phobl ifanc sydd ag ADY yn cael help yn y Gymraeg, pan fo modd, os oes angen hynny arnyn nhw

• bydd cymhwyso dull sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ganolog i’r gwaith o gynllunio a darparu cefnogaeth gan awdurdodau lleol, ysgolion, a cholegau

**Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn**

Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn cyd-weithio i ar un Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad (ADYaCh) gyffredin ar gyfer y ddau awdurdod lleol.

Daeth y **Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Integredig** yn weithredol o Fedi 2017.

Nod y Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn yw:

> ***'Sicrhau bod plant a phobol ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn manteisio ar gyfleoedd ac yn ennill profiadau sydd wedi eu cynllunio'n effeithiol ar eu cyfer, er mwyn eu galluogi i wneud cynnydd yn unol â'u gallu.'***

**Addysg gynhwysol ar lefel ysgol gyfan**

Mae addysg gynhwysol lle caiff plant a phobl ifanc eu cefnogi i fanteisio'n llawn ar addysg brif ffrwd, os yw'n briodol iddyn nhw, a lle mae'r ysgol gyfan yn ceisio diwallu anghenion dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn un o egwyddorion y system ADY. Hynny yw, bod y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc sydd ag ADY yn gallu mynd i'w meithrinfa, eu hysgol, neu eu coleg lleol, os yw'n briodol iddyn nhw.

Dylid sicrhau ethos cynhwysol ar lefel ysgol gyfan. Mae darparu ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn flaenoriaeth i gymuned gyfan pob ysgol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Nid cyfrifoldeb y Cydlynydd ADY, cymorthyddion a'r uwch dîm rheoli'n unig yw diwallu anghenion dysgu ychwanegol disgyblion; mae cymuned lawn yr ysgol yn cynllunio a darparu'n addas ar eu cyfer.

**Ymateb graddoledig**

Mae angen ymateb graddoledig fel y nodir yn adran 20.23 o’r Cod ADY:

> Dylai ysgolion fabwysiadu ymateb graddedig mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY, gan ddefnyddio ystod eang o strategaethau. Mae hyn yn golygu y dylai’r DDdY sy'n cael ei gwneud fod ar y lefel isaf sy'n angenrheidiol i ddiwallu'r anghenion a nodwyd ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc. Yn benodol dylai ysgolion wneud defnydd llawn o'r adnoddau sydd ar gael iddynt cyn galw, lle bo angen, ar arbenigwr i gynorthwyo gyda'r anawsterau y gall plentyn neu berson ifanc fod yn eu hwynebu

Gweler *Map Darpariaeth Ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn* Trefnwyd y map darpariaeth yn ôl dull ymateb graddoledig:

- Darpariaeth Gyffredinol
- Darpariaeth Gyffredinol wedi’i dargedu
- Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) – Os oes angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) y mae angen bod Cynllun Datblygu Unigol (CDU) yn ei le
    - Cynllun Datblygu Unigol (CDU Ysgol)
    - Cynllun Datblygu Unigol (CDU Ysgol) Mewnbwn Ysgol + Mewnbwn Fforwm
    - Cynllun Datblygu Unigol (CDU Awdurdod)

**Mynediad at wasanaeth i gefnogi disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) – Gwynedd ac Ynys Môn**

Mae gan Gwynedd ac Ynys Môn Tîm Integredig sgilgar sydd yn cynnwys timau penodol o arbenigeddau, meysdd anghenion dysgu ychwanegol, a meysydd cynhwysiad. Mae'r timau yma yn cynghori a chefnogi'r ysgolion ac yn sicrhau cysondeb wrth ddarparu ymyraethau a chefnogaeth briodol i'r unigolion.




Tîm Integredig Gwynedd ac Ynys Môn
Timau Arbenigol y Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad

## Darpariaeth Gyffredinol

Mae’n gyfrifoldeb clir o fewn y Cod ADY – ac o ran Deddf Cydraddoldeb hefyd – bod rhaid i bob ysgol ddarparu addysg wahaniaethol effeithiol. Mae addysg gwahaniaethol effeithiol i BOB DISGYBL yn rhan greiddiol o unrhyw ddysgu ac addysgu da. Darpariaeth Gyffredinol yw’r strategaethau ac ymyraethau cyffredinol sydd wedi’u hadnabod fel arfer dda yn y dosbarth er mwyn cyfoethogi profiadau dysgu.

## Darpariaeth Gyffredinol wedi’i dargedu?

Yr ysgol yn adnabod anghenion a darparu darpariaethau; gall hyn ddigwydd drwy strategaethau neu ymyraethau penodol ar sail tystiolaeth (er enghraifft, grwpiau targedau) o fewn ysgol er mwyn ymateb i feysydd penodol. Os oes strategaeth neu ymyrraeth benodol, y mae angen meini prawf mynediad a gadael clir. Mae disgwyl i bob ysgol gyflwyno darpariaethau wedi’i dargedu, a nodir hyn yn adran 20.14 o’r Cod ADY: Os nad yw'r cynnydd yn ddigonol, bydd angen cymryd camau ychwanegol neu wahanol er mwyn i'r dysgwr allu dysgu mewn ffordd fwy effeithiol. Yr ymateb cyntaf i gynnydd annigonol, yn aml, fyddai targedu’r meysydd penodol hynny sy’n wan gan y dysgwr. **Disgwylir i bob lleoliad addysg gyflwyno addysgu gwahaniaethol neu ymyriadau penodol eraill, â'r nod o sicrhau gwell cynnydd, lle bo'n briodol, i bob dysgwr.**

Nid yw addysgu gwahaniaethol o'r fath, ynddo'i hun, yn gyfystyr â DDdY ac nid yw'r ffaith bod angen dull gwahaniaethol ar blentyn neu berson ifanc yn golygu bod ganddo ADY. **Mae DDdY yn golygu hyfforddiant neu ddarpariaeth addysgol ychwanegol neu wahanol, sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn sydd ar gael yn gyffredinol.**

## Cynllun Datblygu Unigol (CDU Ysgol)

### Ysgol yn sicrhau'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY)

Mae DDdY yn golygu hyfforddiant neu ddarpariaeth addysgol ychwanegol neu wahanol, sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn sydd ar gael yn gyffredinol.

## Cynllun Datblygu Unigol (CDU Awdurdod)

## Awdurdod Lleol yn sicrhau'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY)

Mae DDdY yn golygu hyfforddiant neu ddarpariaeth addysgol ychwanegol neu wahanol, sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn sydd ar gael yn gyffredinol.

Gallai amgylchiadau'r ysgol (h.y. ei lleoliad, ei maint, ei chyllideb, ei phrofiad ac ati) effeithio ar farn yr ysgol ynghylch a fyddai'n rhesymol iddi sicrhau'r DDdY. Er enghraifft, gallai unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol effeithio ar y farn honno:
(a) mae gan y plentyn gyflwr llai cyffredin neu gyflwr prin sy'n galw am arbenigedd na all yr ysgol ei ddarparu;

(b) er mwyn diwallu anghenion y plentyn, mae ar yr ysgol angen cyngor a chymorth rheolaidd gan asiantaethau allanol sydd y tu hwnt i'r hyn y gellir ei drefnu'n rhesymol gan yr ysgol;
(c) mae ar y plentyn angen cyfarpar y gellir ei ddefnyddio gan un disgybl yn unig neu na ellir ei ailddefnyddio neu sydd y tu hwnt i adnoddau rhesymol yr ysgol;
(d) mae ar y plentyn angen cymorth dyddiol dwys iawn na ellir yn rhesymol ei gyllido neu ei sicrhau o gyllideb yr ysgol.

## Plant a phobl ifanc mewn amgylchiadau penodol

Bydd awdurdodau lleol Gwynedd ac Ynys Môn yn llunio ac yn cynnal CDU ar gyfer plant a phobl ifanc gydag ADY

- yn derbyn gofal (ble Gwynedd neu Ynys Môn yw’r awdurdod cyfrifol)
- cofrestriad deuol
- sy’n derbyn Addysg Ddewisol yn y Cartref,
- sy’n mynychu Ysgol Annibynnol

## Cadw ADY o dan adolygiad

Mae’r system ADY yng Nghymru ei wneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adolygu’r DDdY sydd ar gael a threfniadau cysylltiedig sy'n cefnogi'r broses o adnabod ADY a cwrdd ag anghenion disgyblion ag ADY. Mae’r ddogfen hon yn disgrifio egwyddorion Gwynedd ac ynys Môn o ran plant a phobl ifanc ag ADY. Mae’r ddogfen hon yn cynnig eglurhad i ysgolion pryd mae’n rhesymol i ysgol sicrhau’r DDdY sydd ei hangen ar ddisgybl neu a ddylai’r awdurdod wneud hynny.

**Manylion cyswllt**

**Gwasanaeth ADYaCh**
**Adran Addysg**
**Caernarfon**
**Gwynedd**
**LL55 1SH**

**Rhif ffôn: (01286) 679007**

**E-bost: GweinyddolADYaCH@gwynedd.llyw.cymru**

Atodiadau

Meini Prawf Timau Arbenigol ADY a Chynhwysiad

- meini prawf mewnbwn y timau arbenigol ADY a Chynhwysiad

- Tîm Nam Golwg
- Tîm Nam Clyw
- Tîm Corfforol Meddygol
- Tîm ADY Penodol
- Tîm Cyfathrebu a Rhyngweithio
- Tîm ABC - Blynyddoedd Cynnar
- Tîm Cynhwysiad

# Mewnbwn Tîm Nam Golwg

**Gwybodaeth feddygol :-**

| **Beth mae'r Ysgol yn ei wneud?** | **<u>Tystiolaeth</u>** |
|---|---|
| Gwybodaeth Nam Golwg yn y CDU/Proffil<br>Deilliant a thargedau Nam Golwg yn flaenoriaeth amlwg ar y CDU (ac wedi eu hadolygu dros gyfnod o oleiaf dau dymor)/ | |
| Mynediad i ymyrraeth briodol a chyson yn yr Ysgol ( e.e. adnoddau wedi eu haddasu'n briodol, gwaith 1:1 ar dargedau CDU) | |
| Ydi'r ysgol wedi cael mewnbwn gan y tim yn flaenorol? Ydi'r strategaethau blaenorol sydd wedi eu hargymell gan y gwasanaeth yn addas i'r disgybl dan sylw? Oes tystiolaeth o hyn yn y CDU?/ | |
| Oes aelodau o'r ysgol wedi mynychu hyfforddiant OLT?/ | |
| Defnydd effeithiol o oriau dynodedig gan yr Awdurdod - nifer yr oriau : | |

**Sylwadau Pellach**

**Gwybodaeth Golwg di-glinigol:**

Lefel Golwg Pell:

Lefel Golwg Agos:

**Golwg - Cyffredinol**

Heddiw - ------------------------

Targedau i'w gweithredu - ------------------------

| | E | Dd | D | Ch | C | B | A |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mynediad at waith – rhaglen hir dymor. | Y disgybl yn ddibynnol ar aelodau staff yn paratoi gwaith perthnasol wedi ei addasu i'r disgybl | Y disgybl yn ddibynnol ar aelodau staff yn paratoi gwaith perthnasol wedi ei addasu i'r maint print perthnasol | Gallu gweithio ar dasg wedi ei addasu, gyda chymorth | Gallu gweithio'n annibynnol ar rai tasgau wedi eu haddasu | Gallu gweithio'n annibynnol ar y mwyafrif o'r tasgau wedi eu haddasu | Gallu cael mynediad at rai agweddau o'r gwaith yn annibynnol | Gallu cael mynediad at y gwaith yn annibynnol |
| | Y disgybl yn ddibynnol ar aelodau staff i fod yn gyfrifol am baratoi/cyflwyno adnoddau penodol ar gyfer y disgybl | Y disgybl yn ddibynnol ar aelodau staff yn atgoffa'r disgybl/ arwain y disgybl i estyn/cadw yr adnodd penodol. | Dibynnol ar aelodau staff yn paratoi/rhoi'r adnoddau penodol ymlaen ar gyfer y disgybl. | Y disgybl yn rhoi'r adnoddau penodol ymlaen gydag arweiniad. | Y disgybl yn rhoi'r adnoddau penodol ymlaen yn annibynnol. | Y disgybl yn estyn/cadw adnoddau penodol yn annibynnol. | Y disgybl yn estyn/cadw adnoddau penodol yn annibynnol.<br>Y disgybl yn sicrhau bod yr adnoddau yn barod i'w defnyddio.<br>Ddim angen mynediad i offer/ adnoddau penodol. |
| | Heb gychwyn gyda phrint.<br><br>Derbyn llyfrau darllen ar bapur (yn unig) wedi eu addasu yn bwrpasol yn y maint print cywir. | Y disgybl yn ddibynnol ar aelodau staff i sicrhau fod llyfrau ar bapur wedi addasu/RNIB Bookshare yn cael ei ddefnyddio er mwyn cael mynediad i lyfrau maint print cywir. | Derbyn cymorth aelodau staff i sicrhau fod llyfrau ar bapur wedi addasu/RNIB Bookshare yn cael ei ddefnyddio er mwyn cael mynediad i lyfrau maint print cywir. | Dechrau defnyddio RNIB Bookshare dan arweiniad i ddewis llyfrau darllen/ gwaith. | Defnyddio RNIB Bookshare gyda chymorth i ddewis llyfrau darllen/ gwaith. | Defnyddio RNIB Bookshare yn annibynnol i ddewis llyfrau darllen/ gwaith. | Defnyddio RNIB Bookshare yn annibynnol i ddewis llyfrau darllen/ gwaith, eu llawrlwytho a'u cadw.<br><br>Ddim angen mynediad i ddeunyddiau print wedi addasu. |
| Hunan-eiriolaeth | Yn ddibynnol ar aelodau staff i adnabod os yw angen addasiad/adnodd/ lleoliad penodol | Yn ddibynnol ar aelodau staff i eirioli drosto/i - os yw angen addasiad/adnodd/ lleoliad penodol | Sgiliau hunan-eiriolaeth yn dechrau datblygu - wedi dechrau datblygu hyder i ofyn am addasiad/adnodd/ lleoliad penodol mewn rhai sefyllfaoedd | Sgiliau hunan-eiriolaeth yn datblygu - gallu gofyn am addasiad/adnodd/lleoliad penodol pan fo angen mewn rhai gwersi/gyda rhai aelodau o staff | Sgiliau hunan-eiriolaeth da - gofyn am addasiad/adnodd/ lleoliad penodol pan fo angen | Sgiliau hunan-eiriolaeth cryf- gofyn yn hyderus am addasiad/ adnodd/ lleoliad penodol pan fo angen | Dim angen gwaith wedi ei addasu/ adnodd/ lleoliad penodol yn y dosbarth |
| Sylwadau Pellach:- | | | | | | | |

**Teipio**

Heddiw - ------------------------ Targedau i'w gweithredu - ------------------------

| | E | Dd | D | Ch | C | B | A |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mynediad at waith – rhaglen hir dymor.<br><br>Wedi selio ar Typing Club | Rhaglen hir dymor teipio wedi ei gyflwyno | Rhaglen hir dymor teipio wedi ei gyflwyno | Rhaglen hir dymor teipio wedi ei gyflwyno | Rhaglen hir dymor teipio wedi ei gyflwyno | Rhaglen hir dymor teipio wedi ei gyflwyno | Rhaglen hir dymor teipio wedi ei gyflwyno | Dim angen rhaglen tymor hir/byr |
| | Gallu lleoli a defnyddio f,j,k a d yn gywir | Gallu lleoli a defnyddio s,l, a ac ; yn gywir | Gallu lleoli a defnyddio<br>y llythrennau isod yn gywir<br>r,u,e,i w,<br>o q,y, p a t | Gallu lleoli a defnyddio<br>yr isod yn gywir<br>v,m,c a coma<br>x,atalnod llawn, z a / | Gallu lleoli a defnyddio yn gywir y<br>Rhifau o 1-10.<br>Gallu lleoli a defnyddio<br>y lythrennau i gyd yn gywir. | Defnyddio teipio testun yn gywir er mwyn cofnodi gwaith dosbarth. | Dim angen rhaglen tymor byr/hir. |
| | Teipio-<br>cywirdeb 0-50% | Teipio-<br>cywirdeb 51- 69% | Teipio-<br>cywirdeb 70-80% | Teipio-<br>cywirdeb 81-94% | Teipio cywirdeb 95-99% | Teipio cywirdeb 100% | Dim angen rhaglen tymor byr/hir. |
| | Teipio-<br>cyflymder 1-5 gyf | Teipio-<br>cyflymder 6-10 gyf | Teipio-<br>cyflymder 11-15gyf | Teipio-<br>cyflymder 16-19 gyf | Teipio-<br>cyflymder 20-24 gyf | Teipio-<br>cyflymder 25-30 + gyf | Dim angen rhaglen tymor byr/hir. |
| | sgiliau teipio-<br>shortkeys 0 – 20% | sgiliau teipio-<br>shortkeys 21-40% | sgiliau teipio-<br>shortkeys 41-60% | sgiliau teipio-<br>shortkeys 61-80% | sgiliau teipio-<br>shortkeys 81-100% | Gwneud defnydd cyson a chywir o'r shortkeys | Dim angen rhaglen tymor byr/hir. |

Sylwadau Pellach:-

**Pre-Braille**

Heddiw- ------------------------

Targedau i'w gweithredu- ------------------------

| | E | Dd | D | Ch | C | B | A |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mynediad at waith – rhaglen hir dymor Pre Braille/ | Rhaglen hir dymor (pre-braille) wedi ei gyflwyno | Rhaglen hir dymor (pre-braille) wedi ei gyflwyno | Rhaglen hir dymor (pre-braille) wedi ei gyflwyno | Rhaglen hir dymor (pre-braille) wedi ei gyflwyno | Rhaglen hir dymor (pre-braille) wedi ei gyflwyno | Rhaglen hir dymor (pre-braille) wedi ei gyflwyno | Dim angen rhaglen tymor byr/hir. |
| Datblygiad Synhwyraidd Motor (Dechrau Darllen Braille)/ | Gallu adnabod gwrthrychau 3D bob dydd | Gallu matsio gwrthrychau bob dydd | Gallu trefnu yn ôl maint – mawr/ bach<br>Gallu trefnu yn ôl siâp<br>Gallu trefnu yn ôl lleoliad<br>Gallu trefnu yn ôl perthynas | Gweithgareddau pentyrru –<br>Gallu trefnu 3 – 5 o flociau<br>Gallu trefnu 3 o flociau a biceri | Gallu rhoi gleiniau ar hoelen<br>Gallu rhoi gleiniau ar lasyn<br>Gallu rhoi gleiniau ar linyn tenau | Gallu gwneud llinell o Begiau ar begfwrdd<br>Gallu trin/ rheoli play doh<br>Gallu pinsio peg dillad i ochr tun/ mewn bag<br><br>Gallu sgriwio/dadsgriwio caeadau | Yn barod/ hapus i agor dwylo<br>dwylo yn agored<br>dwylo yn hapus i ymchwilio<br>dwylo yn hapus i gyffwrdd delweddau<br>dwylo yn ymchwilio delweddau<br><br>Gallu adnabod bysedd unigol gwahanol ar bob llaw |
| Canfyddiad Tactil (Dechrau Darllen Braille) | **Trefnu gweoedd:**<br>Gallu matsio a gwahaniaethu rhwng blew a plastig.<br><br>**Cyffwrdd ysgafn a manwl y bysedd:**<br>Gallu symud tocynnau'n ysgafn<br><br>**Matsio**<br>4 gwrthych-drwy gyffwrdd<br><br>**Dosbarthu**<br>Gallu dosbarthu i 'sorting tray' drwy gyffwrdd 4 gwrthych | **Trefnu gweoedd:**<br>Gallu matsio a gwahaniaethu rhwng cardiau gweadog.<br><br>**Cyffwrdd ysgafn a manwl y bysedd:**<br>Gallu byseddu pethau cain<br><br>**Matsio**<br>3 wrthych- drwy gyffwrdd<br><br>**Dosbarthu**<br>Gallu dosbarthu i 'sorting tray' drwy | **Trefnu gweoedd:**<br>Gallu matsio a gwahaniaethu rhwng silindrau a gweoedd tebyg.<br><br>**Cyffwrdd ysgafn a manwl y bysedd:**<br>Gallu deall pa mor ysgafn ydych chi'n gallu cyffwrdd papur braille<br><br>**Matsio**<br>2 wrthych- drwy gyffwrdd<br><br>**Dosbarthu**<br>Gallu dosbarthu i 'sorting tray' drwy gyffwrdd 2 wrthych 2D/ Dau 3D | **Trefnu gweoedd:**<br>Gallu matsio a gwahaniaethu wrth ddefnyddio pyslau gwaedog yn gywir.<br><br>**Cyffwrdd ysgafn a manwl y bysedd:**<br>Gallu tynnu clipiau papurau o bot bach<br><br>**Gallu adnabod chwith a dde** | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2D/ cyffwrdd 4 gwrthrych 3D<br><br>**Dilyn llinell o'r chwith i'r dde:**<br>Gallu dilyn llinell waedol o'r chwith i'r dde.<br>(German ffilm/ thermotherm) | gyffwrdd tri wrthych 2D/ tri gwrthrych 3D<br><br>**Dilyn llinell o'r chwith i'r dde:**<br>Gallu 'mynd yn ôl' i linell newydd.<br>(defnyddio dull siswrn/ cyffwrdd) | **Dilyn llinell o'r chwith i'r dde:**<br>Gallu dilyn llinell o ddotiau braille.<br><br>**Lleoliad dwylo:**<br>Ystum cywir.<br>Eistedd yn gywir | **Dilyn llinell o'r chwith i'r dde:**<br>Dilyn darn o linyn, ar draws<br>Hapus i ddilyn weiren/ llinyn o'r chwith i'r dde<br>Gallu darganfod lle mewn llinell o gelloedd llawn.<br><br>**Lleoliad dwylo:**<br>Crymu bysedd. | | | |
| Gwahaniaethu clywedol (Dechrau Darllen Braille) | | **Defnyddio dotiau braille:**<br>Gallu pigo'r peth heb fod fel y pethau eraill. | **Defnyddio dotiau braille:**<br><br>Gallu symud o'r chwith i'r dde. | **Defnyddio dotiau braille:**<br>Gallu matsio. | | | |
| Datblygiad Ieithyddol/ cysyniadol (Dechrau Darllen Braille) | Gallu adnabod ac ymateb i synau cyfarwydd.<br>Gallu adnabod ac ymateb i gyfeiriad y synau. | Gallu dynwared ac ail-adrodd synau. | Gallu ail adrodd ymadroddion syml.<br>Gallu dangos dealltwriaeth (ymateb addas). | Yn ailadrodd rhigymau a chanir.<br>Rhoi sylw am i fyny at 3 munud. | Ymateb i/ gwahaniaethu rhwng synau.<br>Copio clapiau/ rhigymau syml. | Gallu dilyn dilyniant cyfeiriadau.<br>Gallu ail ddweud stori syml. | Gallu adnabod synau cytsain cychwynnol geiriau syml.<br>Gallu cymysgu synau geiriau syml. |
| | **Tebygrwydd/ gwahaniaethau:**<br>e.e. matsio llwyau a ffyrc<br>dillad<br>rhannau o'r corff<br>cadeiriau<br>drysau<br>planhigion | **Bach/canol/mawr:**<br>e.e. set o deganau<br>sosbenni a phadelli<br>llestri<br>dillad<br>esgidiau<br>teganau | **Mawr/bach:**<br>e.e. pobl<br>dillad<br>teganau<br>cadeiriau<br>meintiau o fwyd<br><br>**Siapiau:**<br>cylchoedd- gwydrau, cwpanau, desglau,<br>sgwariau- ffenestri, clustogau, gwaelod cartonau<br>trionglau- top cartonau, toeau tai doliau<br>petryalau -drysau, ffenestri, teganau | **I mewn/allan:**<br>e.e. bocsys<br>set o deganau<br>llwyau mewn pot<br>dringo i mewn i gar<br>allan o'r tŷ<br>yn yr ardd<br>troed yn yr esgid<br><br>**I fyny/ i lawr:**<br>e.e. grisiau<br>i fyny ar y silff<br>cerdded i lawr y grisiau | **Top/gwaelod:**<br>e.e. dillad<br>droriau<br>silffoedd<br>drysau<br><br>**Dros/ dan:**<br>e.e. dros y pwll o ddŵr<br>dan y coed<br>teganau<br>offer addysg gorfforol | **Tew/tenau:**<br>e.e. defnydd mewn dillad<br>selsig<br>creonau/ pensiliau/llyfrau<br><br>**Llydan/cul:**<br>cynteddau<br>rhubanau<br>tyllau llawes/gyddfau mewn dillad<br>mygiau | **Dilyniant amser ac ysbaid:**<br>cyntaf, olaf, canol<br>dyddiau'r wythnos<br>e.e. aros am dro<br>rasys gyda teganau |

| Sylwadau Pellach :- |
|---|
| |

**Braille**

Heddiw- ------------------------ Targedau i'w gweithredu- ------------------------

| | E | Dd | D | Ch | C | B | A |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mynediad at waith – rhaglen hir dymor | Rhaglen hir dymor braille wedi ei gyflwyno | Rhaglen hir dymor braille wedi ei gyflwyno | Rhaglen hir dymor braille wedi ei gyflwyno | Rhaglen hir dymor braille wedi ei gyflwyno | Rhaglen hir dymor braille wedi ei gyflwyno | Rhaglen hir dymor braille wedi ei gyflwyno | Rhaglen hir dymor braille wedi ei gyflwyno |
| | -Wedi cyflawni gofynion pre-braille<br><br>-Byseddu yn gywir ar Percins<br><br>-Llwytho papur<br>-Adnabod 'page up'<br><br>-Ymgyfarwyddo gyda 5 llythyren Braille Cymraeg<br>**-Darllen**<br>**-Creu**<br><br>-Dysgu a chofio 5 AEUS Cymraeg | -Adnabod 'page back' ar Percins<br><br>-Ymgyfarwyddo a 6 llythyren wyddor Cymraeg<br>**-Darllen**<br>**-Creu**<br><br>-Adnabod arwydd llythyren fawr<br>**-Darllen**<br>**-Creu**<br><br>-Adnabod Arwydd Rif<br>**-Darllen**<br>**-Creu**<br><br>-Dysgu a chofio 6 AEUS Cymraeg | -Ymgyfarwyddo a 6 llythyren wyddor Cymraeg<br>**-Darllen**<br>**-Creu**<br><br>-Dysgu a chofio gweddill yr AEUS<br>-Adnabod atalnod llawn<br>**-Darllen**<br>**-Creu**<br><br>-Adnabod rhifau 1-10<br>**-Darllen**<br>**-Creu** | -Ymgyfarwyddo a 4 llythyren olaf<br>- **Darllen**<br>- **Creu**<br><br>- Cychwyn defnyddio Percins i gofnodi yn y dosbarth<br>- Adnabod ebychnod<br>- **Darllen**<br>- **Creu**<br><br>- Adnabod Marc Cwestiwn<br>-**Darllen**<br>-**Creu**<br><br>- Adnabod To Bach<br>-**Darllen**<br>- **Creu**<br><br>- Adnabod Arwydd Grŵp Cryf<br>ED/ER<br>- **Darllen**<br>- **Creu**<br><br>- Adnabod Geiriau dot 5- CH-O | - Adnabod OF/OW<br>-**Darllen**<br>-**Creu**<br><br>- Adnabod Geiriau dot 5 P- Y<br>-Darllen<br>-Creu<br><br>- Adnabod marciau siarad<br>- **Darllen**<br>- **Creu**<br><br>- Adnabod Arwydd Grŵp Cyf olaf<br>ST<br>-**Darllen**<br>-**creu**<br><br>AR<br>-**Darllen**<br>-**creu**<br><br>-Adnabod Awyddion Grŵp is<br>EN<br>-**Darllen**<br>-**Creu** | -ST/AR/IN/EN yn weithredol mewn cofnodi<br><br>-Adnabod cywysgiadau llythyren gyntaf gyda dotiau 4-5-6<br>- **Darllen**<br>-**Creu**<br><br>-Adnabod Arwyddion Grŵp Llythyren Olaf<br>-**Darllen**<br>-**Creu**<br><br>-Deall ystyr ffurfiau byr<br><br>-Dehongli ffurfiau byr wrth ddarllen<br><br>-Defnyddio ffurfiau byr perthnasol mewn darnau gwaith | Defnyddio y Cod Brel perthnasol i'r angen<br>Gradd 1<br>Gradd 1/2<br>Gradd 2<br><br>Cymraeg<br>Mathemateg<br>Ffrangeg<br>Gwyddoniaeth<br>Cerdd |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **-Darllen**<br>**-Creu** | IN<br>-**Darllen**<br>**-Creu** | | |
| Sylwadau Pellach:- | | | | | | | |

| **Effaith ehangach yr anhawster** | |
|---|---|
| Mae'r disgybl bellach yn gallu gwneud cynnydd o ran deilliannau/lefelau cwricwlaidd. | |
| Disgybl wedi datblygu sgiliau digonol i allu cwblhau tasgau sydd wedi eu gwahaniaethu yn briodol yn annibynnol rhan fwyaf o'r amser. | |
| Mae lefel yr anghenion wedi gostwng ac o ganlyniad yn cael llai o effaith ar fynediad i gyfleon addysgol a ddarperir. | |

# Mewnbwn Tîm Nam Clyw

| Beth mae'r Ysgol yn ei wneud? | Tystiolaeth |
|---|---|
| Deilliant a thargedau Nam Clyw yn flaenoriaeth amlwg ar y CDU (ac wedi eu hadolygu dros gyfnod o oleiaf dau dymor). | |
| Mynediad i ymyrraeth briodol a chyson yn yr Ysgol ( e.e. adnoddau wedi eu haddasu'n briodol, gwaith 1:1 ar dargedau CDU) | |
| Ydi'r ysgol wedi cael mewnbwn gan y tîm yn flaenorol . Ydi'r straegaethau blaenorol sydd wedi eu hargymell gan y gwasanaeth wedi sefydlu. Oes tystiolaeth o hyn yn y CDU? | |
| Oes aelodau o'r ysgol wedi mynychu'r hyfforddiant OLT? | |
| Defnydd effeithiol o oriau dynodedig gan yr Awdurdod - nifer yr oriau – | |
| Gwybodaeth Pellach:- | |

| Pwyntiau pellach i'w ystyried | |
|---|---|
| Mae diffyg cynnydd dros gyfnod o amser (blwyddyn) yn dilyn targedau a mewnbwn arbenigol y Gwasanaeth Nam Clyw yn awgrymu fod angen ail-ystyried ein dealltwriaeth o brif faes anhawster y disgybl. Nid ydi parhau a'r ddarpariaeth Gwasanaeth Nam Clyw yn addas. Ail-gyflwyno'r achos yn y Fforwm / Ysgol i drafod gyda eu Seicolegydd Addysg mewn Cyfarfod Cynllunio. | |
| Mae diagnosis arall/dealltwriaeth gwahanol o brif faes anhawster y disgybl wedi ei wneud, a nid yw parhau a'r ddarpariaeth Gwasanaeth Nam Clyw yn addas. Ysgol i drafod gyda eu Seicolegydd Addysg mewn Cyfarfod Cynllunio. | |
| Mae disgybl wedi dangos anfodlonrwydd cyson i dderbyn mewnbwn gan y Gwasanaeth Nam Golwg | |
| Yr Ysgol dan sylw wedi eu uwch-sgilio yn ddigonol i allu diwallu anghenion ychwanegol y disgybl heb arweiniad pellach. Gellir gofyn am gyngor y Gwasanaeth Nam Clyw yn y dyfodol petai angen. Fodd bynnag bydd ymweliadau monitro golwg gweithredol yn parhau. | |

| **Lefel y golled clyw.** | E | Dd | D | Ch | C | B | A |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lefel y golled clyw. | **Colled clyw dwys yn y ddwy glust. Yn defnyddio BSL i gyfathrebu.**<br><br>**95+Dbhl** | **Colled clyw difrifol/ dwys yn y ddwy glust.**<br><br>**80-95+Dbhl** | **Colled clyw difrifol yn cynnwys colled amleddi uchel. Colled clyw cymedrol hefo colled dargludol ar ei ben. 71-95Dbhl.** | **Colled clyw cymedrol yn y ddwy glust neu colled dargludol cymedrol tymor hir. 41-70dBHL** | **Colled clyw cymedrol yn y ddwy glust neu colled dargludol cymedrol tymor hir. 41-70dBHL** | **Colled clyw mewn un glust neu colled dargludol sydd yn anwadal.** | **Dim Nam Clyw**<br><br>**O dan 20Dbhl** |

DEFNYDD O OFFER

Heddiw - ________________________ Targedau i'w gweithredu- ________________________

| | E | Dd | D | Ch | C | B | A |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gallu defnyddio offer i gael mynediad i waith ysgol** | Gwrthod gwisgo offer sydd wedi ei argymell gan iechyd/ addysg ( e.e teclyn clyw)<br><br>Tynnu teclyn yn gyson. | Deall sut mae teclynnau yn helpu a'u defnyddio gyda anogaeth.<br><br>Tynnu/ gosod offer yn briodol i oedran<br><br>Hapus i ofyn am gymorth wrth ddelio a offer<br><br>Cymryd rhan yn y Cynnal a cadw dyddiol ( yn unol a oedran) gyda chymorth oedolyn | Derbyn a defnyddio teclynnau yn rheolaidd - yn unol a argymhellion oedolyn<br><br>Hysbysu pam nad yw offer yn gweithio. Gwybod pam fo angen newid batri.<br><br>Datblygu mewn annibyniaeth wrth gynnal a chadw offer Newid batris yn briodol i oedran. Ymwybodol o anghenion gwaredu batris. | Gallu egluro pam nad oes angen offer mewn rhai sefyllfaoedd penodol<br><br>Defnyddio botwn ' volume' yn gywir.<br><br>Cychwyn Enwi a deall swyddogaeth Prif ddarnau offer yn gywir '<br><br>Annibynnol wrth gynnal a chadw. | Defnyddio rhaglenni offer – P1 P2 Lŵp ayb<br><br>Hunan gynhaliol wrth gynnal a chadw a monitro offer<br><br>Gallu cychwyn gwirio problemau yn synhwyrol.<br><br>Deall y budd mae offer yn gynnig mewn sefyllfaoedd amrywiol<br><br>Deall offer clyw gan unigolion eraill CI , BAHA ayb | Gallu newid tube ayb<br><br>Gwirio problemau yn synhwyrol.<br><br>. | Gallu disgrifio sut mae offer yn gweithio .<br><br>Deall amryw opsiynau offer – mewn sefyllfaoedd amrywiol. ee. Lŵp , OA<br><br>Gallu defnyddio offer clyw ar y cyd a OA yn hyderus<br><br>Trafod yn hyderus mewn apwyntiad awdioleg. Rhannu adborth yn synhwyrol. |
| **Offer arbenigol – FM, soundfield ayb** | | | | Deall y gellir defnyddio offer arbenigol i gefnogi gwrando | Defnyddio OA yn hyderus a chymorth Yn datblygu mewn annibyniaeth wrth drin OA .<br>Adnabod sefyllfaoedd pam gall OA helpu a defnyddio'r offer | Egluro sut mae OA yn gweithio<br><br>Deall goblygiadau peidio defnyddio offer.<br><br>Hyderus ac annibynnol wrth drin offer.<br>Gallu cysylltu darn offer i dechnoleg dosbarth ayb<br><br>Cychwyn defnyddio apiau / gosodiadau hygyrchedd | Llwyr annibynnol â offer<br><br>Deall amryw opsiynau offer – a'r budd mewn sefyllfaoedd penodol<br><br>Yn ymwybodol o'r offer diweddaraf a'u budd.<br><br>Defnyddio apiau/ gosodiadau hygyrchedd yn hyberus |
| **Hunan ymwybyddiaeth a sgiliau negydu** | Dim yn derbyn fy ngholled clyw<br><br>Anfodlon gwneud unrhyw addasiadau i gefnogi gwrando. | Ymwybodol bo' gen i golled clyw.<br><br>Hapus i ddangos fy nheclyn clyw / colled clyw i ffrind.<br><br>Gyda cymorth hapus i ddilyn strategaethau | Ymwybodol o wahanol lefelau colled clyw Gwybod lefel / effaith penodol fy ngholled clyw i<br><br>Deall lle yw'r safle gorau i eistedd er mwyn gwrando. | Gallu enwi prif rannau y glust.<br><br>Gallu dweud wrth rhywun agos bod gen i golled clyw a sut i helpu gwneud gwrando yn haws imi.<br>Deall pam nad ydwyf wedi clywed / deall | Gallu enwi prif rannau y glust a'u swyddogaeth<br><br>Gallu dweud wrth rhywun diarth bod gen i golled clyw.<br>Adnabod rhwystrau a chynnig syniadau sut gallent helpu gwneud gwrando yn haws imi. | Gallu deall awdiogram syml .<br><br>Gallu **egluro** fy ngholled clyw – a egluro strategaethau i'm cefnogi neu ofyn am addasiadau. | Gallu deall awdiogram o ran mynediad 'synnau iaith'<br><br>Gallu egluro gwahanol fath o golled clyw ag effaith penodol hyn.<br><br>Hyderus i egluro natur fy ngholled clyw ac effaith |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | syml i gefnogi fy ngwrando | Ymwybodol o sut gall amgylchedd bod yn rwystr gwrando | Deall yr effaith o rwystrau i'm gwrando | | | hyn yn fy mywyd bod dydd.<br><br>Gallu adnabod ag egluro rhwystrau i'm cyfathrebu yn hyderus. |
| Sylwadau Pellach :- | | | | | | | |

CYFATHREBU A DATBLYGIAD IAITH.

Heddiw - ------------------------ Targedau i'w gweithredu- ------------------------

| | E | Dd | D | Ch | C | B | A |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfathrebu** | Gallu mynegi anghenion gan ddefnyddio synau neu geiriau unigol. | Gallu mynegi anghenion gan ddefnyddio 2 air neu arwydd hefo'i gilydd. | Gallu mynegi anghenion drwy ddefnyddio cymalau/ brawddegau syml. Gallu dilyn cyfarwyddiadau syml. | Llwyddo i roi a dilyn cyfarwyddiadau o fewn lefel 1:1, grŵp bach ac ar lefel gymdeithasol. | Dechrau defnyddio brawddegau amrywiol. | Gallu defnyddio amrywiaeth o frawddegau i gyfathrebu. Gallu ymateb i gyfarwyddiadau mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. | Gallu ymateb a siarad am ddigwyddiadau, ac yn llwyddo i resymu wrth ymateb i gwestiwn.<br>Defnyddio iaith ar gyfer amrywiaeth o ddibenion cymdeithasol. |

| | E | Dd | D | Ch | C | B | A |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **DATBLYGIAD O IAITH** | Dechrau ymateb i gwestiynau syml fel Lle mae...? Beth ydi...? Ymateb drwy edrych ar, pwyntio/arwyddo neu defnyddio gair. | Ymateb yn gadarn i'r cwestiynau Beth? a Lle?<br><br>Deall cysyniadau ieithyddol fel maint a lliw. | Dechrau ymateb i'r cwestiwn Pwy? yn briodol.<br><br>Dechrau gallu didoli a chategoreiddio gwrthrychau syml e.e teganau. | Gallu dweud stori syml neu ddigwyddiad. Gallu trefnu lluniau mewn dilyniant.<br><br>Gallu egluro sut mae rhai gwrthrychau yn debyg. | Gallu rhagfynegi.<br><br>Gallu crynhoi stori mewn 1 frawddeg.<br><br>Gallu meddwl am beth mae cymeriad mewn stori yn ei ddweud neu yn ei deimlo. | Gallu trefnu stori yn defnyddio iaith bwrpasol fel... Yn gyntaf, wedyn, yn olaf gyda chymorth.<br><br>Gallu cyfathrebu stori neu ddigwyddiad yn | Gallu trefnu stori yn annibynnol a rhesymu Pam fod pethau di digwydd.<br><br>Gallu cyfathrebu yn hyderus yn defnyddio brawddegau llawn. |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ymateb i gyfarwyddyd 1 cam - E.E Dos i nol y bel. | Dechrau deall sut mae gwrthrychau yn wahanol.<br><br>Dechrau mynegi defnyddio dau air/2 arwydd.<br>e.e tedi'n cysgu.<br><br>Dangos ymwybyddiaeth o deimladau sylfaenol fel trist a hapus. | Gallu cyfathrebu ar lefel 3 gair/arwydd.<br><br>Gallu disgrifio golygfa.<br><br>Gallu mynegi teimladau gyda chymorth. | Gallu mynegi ei hunain ar lefel 4 gair/arwydd<br><br>Adnabod mwy o gategorïau a swyddogaeth gwahanol wrthrychau.<br><br>Gallu mynegi teimladau yn annibynnol. | Gallu diffinio geiriau unigol.<br><br>Dechrau dod yn ymwybodol o deimladau bobl eraill. | defnyddio cyswllt eiriau.<br><br>Bod yn ymwybodol o deimladau eraill a dechrau deall pam. | Gallu mynegi teimladau a rhesymu pam. |

BSL

Heddiw - ______________________ Tagredau i'w gweithredu- ______________________

| | E | Dd | D | Ch | C | B | A |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae ieithoedd yn ein cysylltu a'n gilydd | Rwy'n dechrau bod yn ymwybodol o gysylltiad rhwng iaith(ieithoedd) a diwylliant ac yn datblygu ymdeimlad o berthyn.<br><br>Rwy'n dechrau deall bod yna ieithoedd gwahanol yn fy amgylchedd.<br><br>Rwy'n dechrau siarad â'm cyfoedion yn iaith y lleoliad/ysgol | Gallaf gydnabod bod perthynas rhwng ieithoedd, diwylliant a fy synnwyr o hunaniaeth Gymreig<br><br>Gallaf ddeall bod pobl yn defnyddio ieithoedd gwahanol.<br><br>Rwy'n dechrau deall bod yna debygrwydd a gwahaniaethau rhwng ein hieithoedd .<br><br>Rwy'n dechrau tynnu ar wybodaeth a gyflwynir mewn un iaith a'i chyfleu yn fy ngeiriau fy hun mewn iaith arall. | Gallaf ddeall bod cysylltiadau rhwng iaith, diwylliant a hunaniaeth a bod y rhain yn amrywio o fewn Cymru ac o gwmpas y byd.<br><br>Gallaf gyfathrebu mewn ystod gynyddol o ieithoedd<br><br>Gallaf adnabod a thrafod cysylltiadau, nodweddion cyffredin a gwahaniaethau rhwng yr ieithoedd rwy'n eu siarad a'r rhai rwy'n eu dysgu .<br><br>Rwy'n gallu deall sut a pham mae ieithoedd wedi esblygu ac yn esblygu'n barhaus.<br><br>Gallaf adnabod a pharchu acenion a thafodieithoedd gwahanol<br><br>Gallaf dderbyn gwybodaeth mewn un iaith a'i haddasu at wahanol ddibenion mewn iaith arall . | Gallaf ddeall sut y gall ieithoedd roi ymdeimlad o berthyn i gymuned leol a byd-eang.<br><br>Gallaf archwilio a dadansoddi sut mae ieithoedd yn effeithio ar hunaniaeth a diwylliant a deall bod eu dysgu yn cynnig gwell cyfleoedd yng Nghymru ac mewn cyd-destunau rhyngwladol.<br><br>Gallaf ddefnyddio fy ngwybodaeth am gysylltiadau, nodweddion cyffredin a gwahaniaethau rhwng ieithoedd i gefnogi fy sgiliau dysgu iaith.<br><br>Trwy archwilio'r broses o esblygiad iaith ac etymoleg, gallaf wella fy ngwybodaeth am saernïaeth iaith. | Gallaf ddangos agwedd agored tuag at ddysgu am ieithoedd gwahanol a diwylliannau gwahanol Cymru a'r byd.<br><br>Trwy ddysgu am ieithoedd, gallaf fynegi sut mae'r cysylltiad rhwng ieithoedd a diwylliant yn fy mharatoi ar gyfer dinasyddiaeth Gymreig a byd-eang.<br><br>Gallaf ddefnyddio fy ngwybodaeth am sut mae ieithoedd yn gweithio i gefnogi dysgu ieithoedd ymhellach.<br><br>Gallaf gymhwyso fy sgiliau trawsieithu i gefnogi fy nysgu mewn ieithoedd cyfarwydd a newydd.<br>Gallaf addasu a bod yn sensitif i amrywiaeth o fewn ieithoedd a deall bod amrywiaeth yn digwydd o fewn gwahanol grwpiau cymdeithasol, rhanbarthol ac ieithyddol | Gallaf gymhwyso fy ngwybodaeth am gysylltiadau, nodweddion cyffredin a gwahaniaethau rhwng ieithoedd i wella fy nghyfathrebu.<br><br>Gallaf nodi'n annibynnol gyfleoedd trawsieithu i wella fy nysgu a'm cyfathrebu yn fy ieithoedd | Gallaf gyfathrebu, rhyngweithio a chyfryngu mewn sawl iaith ac adnabod fy hun yn amlieithog.<br><br>Mae gen i dueddiad positif tuag at acenion a thafodieithoedd gwahanol ac yn croesawu amrywiaeth iaith.<br>Gallaf ddefnyddio fy ngwybodaeth am esblygiad iaith ac etymoleg i ddyfnhau fy nealltwriaeth o saernïaeth iaith |

| | E | Dd | D | Ch | C | B | A |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n cwmpas. | Rwy'n dechrau gwahaniaethu rhwng arwyddion sy'n debyg yn ffonolegol.<br><br>Rwy'n dechrau adnabod rhai patrymau gwefus ac ystumiau ceg a ddefnyddir yn iaith arwyddion Prydain<br><br>Rwy'n gallu deall amrywiaeth o arwyddion ar draws gwahanol gyd-destunau.<br><br>Rwy’n gallu arbrofi gyda geirfa.<br><br>Rwy'n gallu adnabod nodweddion heb y dwylo mewn arwyddion sy’n cyfleu teimladau.<br><br>Rwy’n dechrau adnabod geiriau sy’n cael eu sillafu â’r bysedd, yn enwedig enwau cyfarwydd.<br><br>Rwy’n gallu adnabod a dilyn cyfarwyddiadau aml-gam am bynciau ac arferion cyfarwydd.<br><br>Rwy’n gallu ymwneud â phobl sy'n defnyddio BSL ac rwy’n gallu gwneud hynny gyda sylw cynyddol, gan wneud defnydd da o gyswllt â’r llygaid.<br><br>Rwy'n gallu dilyn straeon a disgrifiadau o | Rwy'n gallu adnabod tebygrwydd mewn ystyr ar draws arwyddion sy'n rhannu nodweddion e.e. ffurf y llaw, a lleoliad.<br>Rwy’n gallu adnabod arwyddion, gan gynnwys berfau sy’n gysylltiedig â gwybyddiaeth (e.e. meddwl, gwybod, deall, synhwyro) ac arwyddion sy’n mynegi cyfeiriadau amser a chysyniadau haniaethol.<br><br>Rwy'n deall sut y gellir addasu arwyddion unigol i newid ystyr<br>Rwy’n gallu datblygu fy ngeirfa drwy ymwneud â phobl eraill sy’n defnyddio BSL ac â llenyddiaeth BSL, ac rwy’n gallu defnyddio’r arwyddion newydd hyn mewn amrywiaeth o gyd-destunau.<br><br>Rwy’n gallu deall y defnydd o addasyddion ar gyfer nodweddion dwylo a nodweddion heb y dwylo.<br><br>Rwy’n gallu deall y gwahaniaeth rhwng arwyddion a geiriau sy’n cael eu sillafu â’r bysedd, ac rwy’n deall | Rwy'n gallu deall pan fydd ffonoleg yn cael ei defnyddio'n greadigol mewn cerddi, straeon a chaneuon BSL.<br><br>Rwy’n gallu deall rhai amrywiadau rhanbarthol BSL, fel arwyddion ar gyfer lliwiau a rhifau.<br><br>Rwy'n gallu ymwneud â phobl eraill sy’n defnyddio BSL ac â llenyddiaeth BSL i ddatblygu fy ngeirfa a fy nealltwriaeth o ramadeg BSL.<br><br>Rwy'n gallu deall ystod gynyddol o eirfa gyffredinol a geirfa sy’n ymwneud â phwnc penodol.<br><br>Rwy'n gallu adnabod a deall patrymau cyffredin wrth sillafu â’r bysedd.<br><br>Rwy’n gallu ymwneud yn empathig â safbwyntiau gwahanol bobl ar bynciau amrywiol.<br><br>Rwy’n gallu dehongli ystyr a dod i gasgliadau er mwyn deall ac ystyried dibynadwyedd testunau BSL.<br><br>Rwy’n gallu deall hanfod yr hyn sy’n cael ei arwyddo. | Rwy'n gallu adnabod arwyddion sy'n deillio o ffurfiau sy’n cael eu sillafu â’r bysedd.<br><br>Rwy'n gallu deall geiriau sy’n cael eu sillafu â’r bysedd ar gyflymder naturiol.<br><br>Rwy'n gallu deall cwestiynau am destun BSL a maes o law rwy’n gallu ymateb iddynt.<br><br>Rwy'n gallu deall gwybodaeth mewn BSL am amrywiaeth o bynciau, ac rwy’n gallu crynhoi’r prif bwyntiau.<br><br>Rwy’n gallu dilyn naratifau mwy cymhleth sy'n cynnwys newid rôl a mwy nag un cyfeirydd.<br><br>Rwy'n gallu deall arwyddion, gan gynnwys arwyddion i ddisgrifio cyfeiriadau amser, cysyniadau haniaethol, a berfau ac arwyddion sy’n gysylltiedig â theimladau.<br>Rwy'n gallu deall sut mae defnyddio nodweddion dwylo a nodweddion heblaw y dwylo i addasu ystyron arwyddion unigol. | Rwy’n deall ystod eang o amrywiadau rhanbarthol BSL<br>Rwy'n gallu deall ystod o eirfa gyffredinol a geirfa sy’n ymwneud â phynciau penodol.<br><br>.<br>Rwy’n gallu deall a dadansoddi’r ystyr cyffredinol a’r syniadau sydd ymhlyg mewn testunau BSL<br>.<br>Rwy’n gallu deall ystod o gwestiynau a chyfarwyddiadau aml-gam ac ymateb iddynt mewn amrywiaeth o gyd-destunau cyfarwydd a rhai anghyfarwydd.<br><br>Rwy’n gallu dehongli ystyr | Rwy’n gallu deall geirfa gymhleth sy’n ymwneud â phynciau penodol ac rwy’n gallu deall defnydd soffistigedig o eirfa gyffredinol.<br><br>Rwy'n gallu ymwneud â sgyrsiau a thestunau BSL i atgyfnerthu a datblygu fy ngeirfa a fy strwythurau arwyddo<br><br>Rwy’n gallu deall cystrawennau morffolegol cynyddol gymhleth, gan gynnwys nodweddion heb y dwylo, ac addasiadau i gyflymder a hyd arwyddion, sy'n ychwanegu at ystyr neu’n ei newid. | Rwy’n gallu ymwneud â sgyrsiau a thestunau BSL i ddatblygu ystod eang o eirfa gyffredinol a geirfa sy’n ymwneud â phynciau penodol, ac rwy’n gallu eu defnyddio’n fanwl gywir mewn gwahanol gyd-destunau.<br>Rwy’n gallu ymwneud yn empathig â safbwyntiau gwahanol bobl ar bynciau amrywiol, gan ddefnyddio’r safbwyntiau hynny i ddod i fy nghasgliadau fy hun |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | ddigwyddiadau'r gorffennol. | bod llythrennau sy'n cael eu sillafu â'r bysedd yn cynrychioli llythrennau mewn geiriau ysgrifenedig.<br><br>Rwy'n gallu adnabod geiriau sy'n cael eu sillafu â'r bysedd ar gyfer enwau a lleoedd Rwy'n gallu deall gwybodaeth am amrywiaeth o bynciau, gan adnabod y prif bwyntiau. Rwy'n gallu ymwneud ag eraill a deall y gallan nhw fod â safbwyntiau gwahanol i fy rhai i | Rwy'n gallu defnyddio cyd-destun ac awgrymiadau i fy helpu i ddeall BSL mewn amrywiaeth o gyd-destunau cyfarwydd a rhai anghyfarwydd.<br><br>Rwy'n gallu dilyn naratifau a disgrifiadau o ddigwyddiadau'r gorffennol, gan gynnwys rhai naratifau dilys, am gyfnodau hirach. | Rwy'n gallu deall y defnydd o nodweddion dwylo a nodweddion heb y dwylo, er enghraifft i amlygu rhywbeth. | | | |

| | E | Dd | D | Ch | C | B | A |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae mynegi ein hunain<br><br>trwy ieithoedd yn allweddol<br><br>i gyfathrebu. | Rwy'n dechrau ffurfio arwyddion yn gywir.<br><br>Rwy'n gallu disgrifio gwrthrychau a digwyddiadau, gan ddatblygu ac ymhelaethu fy ngeirfa.<br><br>Rwy'n dechrau defnyddio nodweddion heb y dwylo yn gyson ar gyfer arwyddion unigol.<br><br>Rwy'n dechrau defnyddio arwyddion i nodi amser. | Rwy'n gallu mynegi arwyddion BSL a llythrennau unigol sy'n cael eu sillafu â'r bysedd yn gywir.<br><br>Rwy'n gallu mynegi rhifolion yn gywir. Rwy'n gallu defnyddio geirfa gynyddol greadigol ac amrywiol.<br><br>Rwy'n gallu amrywio ystyr drwy gynnwys nodweddion heb y dwylo | Rwy'n gallu arwyddo'n glir, gan ddefnyddio mynegiant priodol a nodweddion heb y dwylo i gyfleu fy syniadau.<br><br>Rwy'n gallu defnyddio brawddegau syml a rhai aml-gymalog, gan wneud dewisiadau sy'n addas i'r gynulleidfa ac i'r diben.<br><br>Rwy'n gallu adolygu fy arwyddo a'u haddasu i wella fy naratifau BSL. Rwy'n gallu amrywio'r | Rwy'n gallu addasu a thrin iaith a gwneud dewisiadau priodol ynghylch geirfa er mwyn mynegi fy hun yn rhugl ac yn eglur.<br><br>Rwy'n gallu egluro ble a pham rwyf wedi gwneud newidiadau neu gywiriadau mewn testun BSL.<br><br>Rwy'n gallu amlygu pethau drwy ddefnyddio | Rwy'n gallu ymateb i safbwyntiau pobl eraill, gan ofyn am eglurhad, strwythuro dadleuon, crynhoi ac egluro'r hyn rwyf wedi'i weld.<br><br>Rwy'n gallu defnyddio amrywiaeth o strategaethau i gymryd rhan yn effeithiol mewn sgyrsiau. Rwy'n gallu rhyngweithio ag eraill, gan gyfleu fy | Rwy'n gallu mynegi perthynas amseryddol pethau drwy amrywiaeth o ddyfeisiau gramadegol. Rwy'n gallu defnyddio dosbarthyddion sy'n cyfeirio at rannau o'r corff. Rwy'n gallu dewis iaith briodol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a dibenion<br><br>Rwy'n gallu myfyrio ar fy arwyddo a defnyddio amrywiaeth o strategaethau i wella fy | Rwy'n gallu defnyddio berfau gofodol a dosbarthyddion yn briodol.<br><br>Rwy'n gallu myfyrio'n feirniadol ar fy nefnydd o iaith ac rwy'n gallu ystyried yn wrthrychol effaith fy iaith arwyddion ar draws gwahanol genres.<br><br>Rwy'n gallu gwerthuso ac ymateb yn feirniadol i sgyrsiau a thestunau BSL |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
